

H.C.J.: Pa lyfr neu lyfrau gafodd y dylanwad mwyaf arnoch yn eich plentynodol/ieuenctid?

T.J.: Y lyfr Cymraeg cyntaf i mi fod yn ymwybodol ohono oedd *Llyfr Mawr y Plant*. Cael llawer o fwynhad yn gwrando ar Mam yn darllen hwnnw inni adeg y rhyfel, a chael cymaint bob tamaid o fwynhad yn syllu ar luniau lliw cyfareddol Peter Fraser ynddo. Cofio cael gwefr fach bleserus flynyddoedd yn ddiweddarach, wrth fynd trwy hen rifynnau o *Punch* (y tridegau a'r pedwardegau), a dod ar draws cartwnau o waith Fraser ynddynt, a chymeriadau yn y rheini'n hyfryd o debyg i'r hen Eban Jones a'i wraig Sera, Leusa'r forwyn a Tom Tomos y gwas, y bu Siôn Blewyn Coch a Siân Slei Bach yn gymaint o brofedigaeth iddynt i gyd. Yn fy arddegau, mynd i Lyfrgell y Dref yn Aberystwyth yn rheolaidd, a darganfod yno'r hiwmorydd Americanaidd James Thurber, nad oes sill o'i waith cyhoeddedig heb ei ddarllen gennyf hyd y gwn, nac un o'i gartwnau (digon diuchelgais o ran y dylunio) nad wyf wedi orohian uwch ei ben. Nid hiwmor uchel ha! ha!, ond hiwmor distaw, clyfar, hiwmor melancoli hyd yn oed, weithiau. Gallwn enwi dwsinau o lyfrau eraill a ddarllenais yn ystod y cyfnod a nodir yn y cwestiwn, a gafodd rhyw fath o ddylanwad arnaf mae'n debyg, ond dyna'r rhai a ddaw i'r cof heb i mi orfod pendroni dim.

H.C.J.: A ydych yn ystyried eich human yn gasglwr?

T.J.: Prynwr llyfrau yn hytrach na chasglwr. Hynny yw, y mae gennyf 'gasgliad' o lyfrau barddoniaeth Gymraeg, ond byddaf yn prynu llyfr o farddoniaeth am fod gwaith y bardd yn apelio ataf, nid er mwyn ychwanegu at fy nghasgliad o lyfrau barddoniaeth Gymraeg. Ac y mae hynny yr un mor wir am y dosbarthiadau eraill o lenyddiaeth, gyda'r canlyniad bod gennyf gasgliadau cyflawn o waith rhai beirdd a rhai llenorion ar fy silffoedd, a dim cymaint â llinell o waith rhai eraill. I'r graddau hynny yr wyf yn gasglwr, ond 'does dim yn unigryw yn hyn debyg iawn. Byddaf yn prynu blodeugerddi o bob math, ynghyd ag unrhyw lyfr Cymraeg ffeithiol a chyffredinol yn ymwneud â hanes Cymru, hanes ei llenyddiaeth, ac ati. Mae gennyf gasgliad cyflawn o sawl cylchgrawn, megis *Y Llenor*, *Y Genhinen* (S. B. Jones a Meuryn), *Y Faner* (o Geraint Bowen i'r diwedd), *Barddas*, *Y Casglwr*, *Llafar Gwlad*, ac yn y blaen, ond eto, nid am fod anian y casglwr yn of ond oherwydd yn amlach na pheidio yr wyf yn tanysgrifio i gyfnodolion o'r fath ac y maent yn ymfurfio'n gyfresi cyflawn wedyn beth bynnag.

H.C.J.: Yr ydych yn un o

ADNABOD EIN GILYDD

Ar gyfer y drydedd yn y gyfres hon o sgrysiâu ag aelodau o Gymdeithas Bob Owen bu Huw Ceiriog Jones yn holi tipyn ar ei gyfaill TEGWYN JONES



Tegwyn Jones.

olygyddion Geiriadur Prifysgol Cymru, yn awdur llyfrau plant ac oedolion, yn fardd, a hefyd yn arlunydd, llythrennw'r a chartwneydd. Pa un sydd bwysicaf gennyf, y gair ynteu'r llun?

T.J.: Y mae eich ffeithiau i gyd yn iawn ond un. Nid wyf yn fardd, ond byddaf yn lunio ambell rigwm o dro i dro, yn bennaf ar gyfer gomestau radio fel 'Talwm y Beirdd' neu 'Dros Ben Llestri', neu i gyfarch cyfaill neu gyfeillion ar ryw achlysur arbennig. Gwnaeth T. H. Parry-Williams gam mawr â'm bath i drwy barchuso'r gair rhigwm. Rhigymau yn yr hen ystyr yw fy ymdrechion i, a phethau i'w darllen yn gyhoeddus er difyrwch mawr awr yn unig. Mae'n anodd dweud pa un ai'r gair ynteu'r llun sydd 'bwysicaf', ond gallaf ddweud yn gwbl ddibetrus fy mod yn cael llawer mwy o fwynhad a boddhad wrth lunio cartwn neu lythreniad nag a gaf wrth geisio cymell pennill o driban penstiff i ymddwyn fel y dylai triban da wneud, neu (fel y mae fy nhynged y dyddiau hyn fel mae'n digwydd) wrth lunio erthyglau ar sbectrograff, sbectromedr, sbectrogopi, sbectrom, ac yn y blaen ar gyfer Geiriadur Prifysgol Cymru.

H.C.J.: Beth yw trysor mwyaf eich lyfrgell, a pha lyfr hoffech ei gael i'ch lyfrgell?

T.J.: Fel geiriadurwr mae'n debyg y dylwn gyfeirio at fy nghopi o *Dictionary Duplex* John Davies o Fallwyd, 1632, ond y mae un geiriadur arall yn fy meddiant sy'n hoffusach gennyf, mae'n rhaid i mi ddweud, sef geiriadur Saesneg-Cymraeg John Walters o'r Bontfaen, Morgannwg, a gyhoeddwyd yn rhannau rhwng 1770 a 1794. Gŵr gofidus a chynefin â

dolur oedd Walters, ond geiriadurwr a'i ddwy droed yn gadarn ar y ddaear, ac a fyddai'n hau ambell berl o sylw weithiau ymhlith ei ddiffiniadau. Bu'r copi sydd gennyf i o'r argraffiad cyntaf yn eiddo i eiriadurwr mawr arall, sef Daniel Silvan Evans, ac y mae ei lofnod ynddo. Mae gennyf gopi o'r ail argraffiad hefyd (Dolgellau 1815) a brynodd fy ngwraig i mi yn 1965, ychydig cyn i ni briodi, pan oedd digon o angen yr arian i brynu sosbenni a phethau o'r fath Chwarae teg iddi! A thrysor arall o ddiddordeb personol yw *Atgofion Llafurwr* gan Dan Jones, Goginan, ewythr i mi, brawd fy nhad, comiwydd digymrodedd a brynodd wasg law fechan, ac a

argraffodd ychydig gopiau o'r llyfr hwn arni, gyda help y diweddar Barchedig Byron Howells a oedd yn hogn yn ysgol ar y pryd ac yn gymydog iddo yng Ngoginan. Cyfrol amaturaid iawn ydyw o ran diwyg, fel y gellid disgwyl efallai, wedi ei rhwymo mewn papur coch lliwa, ond y mae cydymdeimlad mawr yr awdur â'r 'dosbarth gweithiol' a'i atgasedd at orthrwm y meistri yn curo drwyddi fel gwythien fawr. Pa lyfr a hoffwn? Mae gennyf nifer da o lyfrau cartwnau — detholiadau o waith amryw gartwnwyr a chasgliadau o waith cartwnwyr unigol — Vicky, Low, Scarfe, Marc, Sempé a llawer mwy (gan gynnwys wrth gwrs Hywel Harries a allai lunio cartwn cystal â'r un ohonynt ar dro). Ond un gyfrol nad wyf gennyf, am y rheswm syml nad yw eto'n bod, yw casgliad o waith y cartwnydd o Fro Morgannwg, Leslie Illingworth, prif gartwnydd gwleidyddol *Punch* yn ystod y rhyfel diwethaf, artist penigamp a weithiodd am ychydig yn ei ieuenctid i Hughes a'i Fab, Wrecsam, ac y gwelir ei luniau llawn cymeriad yn rhai o lyfrau cynnar Tegla — *Gŵr Pen y Bryn*, er enghraifft — ac eraill o'r un cyfnod. Gadawodd Illingworth ei gartwnau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, a byddai'n dda odiaeth gweld detholiad helaeth ohonynt rywbryd rhwng dau glawr. Ryddwn ar flaen y ciw i brynu'r gyfrol honno.

H.C.J.: Petai Gwasg Gregynog yn gofyn i chwi ddeuwis testun i'w ddarlunio, beth fyddai eich dewis?

T.J.: Ie petai! 'Pe meddwn fedr arlunydd byw', chwedl Waldo, dewiswn un o gerddi mawr T. Gwynn Jones. 'Madog', efallai, neu 'Anatiomarus', neu 'Cynddilg'...



Cartwn o waith Tegwyn Jones.